Efengyl tangnefedd, O rhed dros y byd

Caneuon Ffydd: Rhif 844

Efengyl tangnefedd, O rhed dros y byd,
a deled y bobloedd i'th lewyrch i gyd;
na foed neb heb wybod am gariad y groes,
a brodyr i'w gilydd fo dynion pob oes.

Sancteiddier y ddaear gan Ysbryd y ne';
boed Iesu yn Frenin, a neb ond efe:
y tywysogaethau mewn hedd wrth ei draed
a phawb yn ddiogel dan arwydd ei waed.

Efengyl tangnefedd, dos rhagot yn awr,
a doed dy gyfiawnder o'r nefoedd i lawr,
fel na byddo mwyach na dial na phoen
na chariad at ryfel, ond rhyfel yr Oen.

EIFION WYN, 1867–1926

MYFYRDOD

Dyhead pobl, ers rhyfeloedd mawr yr ugeinfed ganrif, yw gweld terfyn ar ryfel fel ffordd o setlo gwahaniaethau rhwng cenhedloedd neu garfanau. Mae'r emyn hwn gan Eifion Wyn yn parhau i roi mynegiant i'r dyhead hwnnw heddiw. Ond nid yw'r dyhead wedi dwyn ffrwyth, ac mae ein byd yn parhau i fod yn lle peryglus ac ofnus i lawer o'i drigolion wrth i ryfeloedd gael eu hymladd ar draws ei gyfandiroedd i gyd. Deuthum ar draws yr ystadegyn hwn yn ddiweddar, sef bod yna 26 o ryfeloedd yn cael eu hymladd ar hyn o bryd ar draws y byd. Mae'r rheiny yn cynnwys llawer mwy o garfanau a chenhedloedd a gwledydd, wrth gwrs, a miliynau o bobl yn byw felly yng nghysgod rhyfel – rhai ohonyn nhw'n gyfarwydd inni trwy'r cyfryngau, ond llawer ohonyn nhw na wyddom ni ddim amdanyn nhw, neu yr ydym wedi hen anghofio am eu bodolaeth.

Peth clodwiw ddigon yw dyheu a gweithio dros heddwch byd, ond tra pery hunanoldeb a balchder mewn dynion, a thra pery

cylchoedd trais i gael eu meithrin gan chwerwder a diffyg maddeuant, nid oes gobaith gweld diwedd ar ryfela. Mae ein hemynydd yn mynd â ni at wraidd y mater ac yn dweud bod yn rhaid newid calonnau dynion trwy eu dwyn nhw i lewyrch cariad Crist, a amlygwyd yn bennaf yn ei groes. Hyn er mwyn newid ysbryd y ddaear.

Teitl godidog ar y Meseia yw 'Tywysog tangnefedd', a'r newyddion da am ei ddyfodiad ef i achub y byd yw 'Efengyl tangnefedd' felly. Ond tangnefedd yw hi, yn bennaf ac yn flaenaf, rhwng Duw a dyn. Wrth i'r Efengyl tangnefedd honno gael ei lledaenu ledled y byd, gan droi gelynion Duw yn blant iddo, y daw 'dynion pob oes' yn 'frodyr i'w gilydd', heb fod 'na chariad at ryfel, ond rhyfel yr Oen'.

Edrych ymlaen at y cyfnod hwnnw pryd y byddai neges Duw o heddwch a maddeuant i ddyn wedi ei chyhoeddi i'r byd yn gyfan mae'r proffwydi Eseia a Micha pan broffwydant, 'Curant eu cleddyfau'n geibiau, a'u gwaywffyn yn grymanau. Ni chyfyd cenedl gleddyf yn erbyn cenedl, ac ni ddysgant ryfel mwyach' (Eseia 2:4; Micha 4:3). Roedd gweld diwedd ar ryfel a'r gobaith am deyrnasiad dwyfol yma ar y ddaear mor bwysig gan Dduw, ac yn parhau i fod felly, nes iddo ddatguddio'r broffwydoliaeth hon i'r proffwyd Eseia ac i Micha hefyd. Dyma gyfnod pryd y bydd 'Iesu yn Frenin, a neb ond efe'.

Mae ein hemynydd yn dyheu am y dydd hwnnw fel y proffwydi, ac fel Duw ei hun. Dydd pan fydd Iesu yn ymweld eto â'r ddaear ac yn sefydlu ei deyrnas yma mewn grym. Dyna'r rheswm am y brys sydd yn yr emyn: 'rhed dros y byd'; 'dos rhagot yn awr'. Y fath oleuni a fydd bryd hynny wrth i Dduw ddatrys holl anghydfod, dial a phoen ein byd, pan ddaw 'y bobloedd i'th lewyrch i gyd'. Prysured y dydd yn wir!

GWEDDI

O Dad, rwy'n diolch iti am y gobaith na fydd y ddaear hon fel ag y mae hi am byth, ond y bydd pethau'n newid wrth i Iesu gael ei gyhoeddi'n Frenin ac i bobl ddod i lewyrch ei Efengyl. Prysured y dydd y bydd ef yn Frenin, 'a neb ond efe'. Amen.